PLANT DEWI

Lle Mae Teuluoedd yn Bwysig
Where Families Matter

PECYN CRISTINGL 2026

Yn goleuo gobaith i deuluoedd ar draws Esgobaeth Tyddewi



Rhif Elusen Cofrestredig/Registered Charity No: 244178

Cynnwys

Llythyr Croeso Plant Dewi
Nodyn gan ein Hesgob
Gwneud Gwahaniaeth
Cristingl ar Waith
Sut i Godi Arian
Rhannu eich Cristingl

Llythyr Croeso Plant Dewi

Annwyl Gyfeillion,
Diolch am ddewis cynnal gwasanaeth Cristingl i gefnogi Plant Dewi.
Bob blwyddyn, mae eglwysi ledled Esgobaeth Tyddewi yn defnyddio eu gwasanaeth Cristingl fel cyfle i ddod â goleuni a gobaith i deuluoedd lleol.
Mae'r arian sy'n cael ei godi gan eich gwasanaeth Cristingl yn helpu Plant Dewi i gefnogi teuluoedd gyda babanod a phlant ifanc ledled Esgobaeth Tyddewi trwy brosiectau fel:

- Y Banc Bwndel Babi
- Grwpiau Teuluoedd Gyda'n Gilydd
- Canolfannau Teulu
- Prosiect Rhieni Ifanc
- Prosiect Tadau

Yn sgil eich cefnogaeth, gallwn helpu i sicrhau nad yw teuluoedd sy'n wynebu anawsterau yn gorfod gwneud hynny ar eu pennau eu hunain.
Mae'r Cristingl yn ein hatgoffa y gall gwneud y pethau bychain wneud gwahaniaeth mawr. Yn union fel y gall un gannwyll oleuo ystafell dywyll, gall pob rhodd, mawr neu fach, ddod â gobaith a chymorth ymarferol i deulu.
Mae eich gwasanaeth Cristingl yn fwy na thraddodiad. Mae'n weithred bwerus o gariad sy'n dod â goleuni, gobaith, a chefnogaeth ymarferol i deuluoedd lleol.
Mae'r pecyn hwn wedi'i gynllunio i wneud eich gwasanaeth yn syml i'w drefnu, yn ystyrlon i'w arwain, ac yn effeithiol i'r rhai rydych chi'n eu cefnogi.
Gyda diolch a phob bendith
Plant Dewi

Nodyn gan ein Hesgob

Annwyl Ffrindiau,

Rwy'n falch iawn o'r pecyn Cristingl rhagorol hwn gan Blant Dewi. Yr wyf yn eich annog i rannu'r newyddion da am Iesu Grist, goleuni'r byd gyda phobl, a chynnal gwasanaeth neu ddigwyddiad Cristingl yn eich AGL.

Mae tymor y Adfent, y Nadolig a'r Epifani yn darparu llawer o gyfleoedd i gynnal gwasanaeth mewn un o'r nifer o eglwysi, ysgolion neu ganolfannau cymunedol yn eich ardal. Yn ystod y gwasanaethau hyn, gobeithiaf y byddwch yn rhannu straeon am y gwaith anhygoel y mae Plant Dewi yn ei wneud, drwy gydol y flwyddyn, i gefnogi a meithrin plant, oedolion a phob math o deuluoedd yn ein hesgobaeth. Mae'r prosiectau hyn yn fynegiant gweledol o oleuni Crist yn gweithio yn y byd.

Mae gwasanaethau Cristingl yn adeg i nid yn unig weddi dros y prosiectau hyn ond hefyd i godi arian er mwyn cefnogi eu gwaith hanfodol. Mae cynnal gwasanaeth Cristingl yn rhannu'r efengyl gyda'n cymunedau ac yn cefnogi canolfannau a phrosiectau Plant Dewi - enghreifftiau byw o gariad Crist dros y byd. Gyda chaniatâd priodol, anfonwch luniau o'ch digwyddiad ataf fel y gallaf rannu yn y llawenydd.

Pob bendith,

+Esgob Dorrien

Gwneud Gwahaniaeth

Y llynedd, cododd eglwysi ar draws Esgobaeth Tyddewi £1,488 mewn gwasanaethau Cristingl i gefnogi Plant Dewi.

Er nad yw'r cyfanswm hwn yn edrych yn llawer, mae effaith eich cefnogaeth yn estyn ymhell y tu hwnt i'r swm a godwyd.

Yn ystod yr un flwyddyn:
👨‍👩‍👧 Daeth 3,197 o deuluoedd i grwpiau a chanolfannau Plant Dewi ar draws yr Esgobaeth

🧸 Cafodd 241 o deuluoedd eu cyfeirio at y Banc Bwndel Babi am gymorth

📦 Darparwyd 298 o Fwndeli Babi i deuluoedd sy'n wynebu caledi ariannol

Mae pob gwasanaeth Cristingl yn helpu teuluoedd lleol i gael cymorth ymarferol, cyfeillgarwch, cysylltiadau cymunedol a gobaith pan fydd ei angen arnyn nhw fwyaf.

Cristingl ar Waith

Yr Oren: Cymuned
Mae Plant Dewi yn helpu teuluoedd i ddarganfod man lle maen nhw'n perthyn.
"Mae'r grŵp hwn wedi bod yn achubiaeth. Cyn ymuno, doedd gen i ddim ffrindiau."
"Lle diogel i ymweld a chwrdd ag eraill. Mae'r un fath â'r 'pentref sy'n helpu i feithrin y plentyn'."

Y Rhuban Coch: Cariad a Gofal
Mae teuluoedd yn cael eu cefnogi gan staff ymroddedig, gwirfoddolwyr a rhieni eraill.
"Mae'r staff yn gefnogol, yn ymroddedig ac yn dosturiol. Mae hyder, chwilfrydedd a chariad fy merch at ddysgu wedi ffynnu."
"Mae mor braf yma, dwi bob amser yn teimlo fy mod i'n cael gofal pan dwi'n dod, a does dim angen i mi boeni am unrhyw beth."

Y Losin: Anrhegion a Chyfleoedd
Trwy gymorth ymarferol a phrofiadau cadarnhaol, mae teuluoedd yn cael y cyfle i ffynnu.
"Mae'r grŵp wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'n trefn ni ac wedi rhoi rhywbeth cadarnhaol i ni ei fynychu."
"Mae'r sesiynau yn y llain wedi bod yn wych i mi. Maen nhw'n rhoi rheswm i mi fynd allan ac anghofio fy mhroblemau am dipyn."

Y Gannwyll: Gobaith

Mae Plant Dewi yn helpu teuluoedd i deimlo'n fwy abl i wynebu heriau bywyd.

"Mae mynychu'r grwpiau yn gwella fy hwyliau – ac mae hynny'n gwneud i chi deimlo'n fwy abl i ymdopi â phroblemau bob dydd."

"Mae'r ganolfan wedi bod yn gymorth enfawr i fy iechyd meddwl. Mae'r staff yn hynaws a chyfeillgar. Dwi'n falch fy mod i wedi dechrau dod."

Mae pob gwasanaeth Cristingl yn gyfle i ddisgleirio goleuni Crist ar fywydau teuluoedd lleol.

Trwy eich haelioni, mae mwy o rieni yn dod o hyd i gyfeillgarwch, mwy o blant yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd, ac mae mwy o deuluoedd yn gwybod nad ydyn nhw ar eu pennau eu hunain.

Diolch am helpu Plant Dewi i gefnogi plant a theuluoedd ar draws esgobaeth Tyddewi.

Adnoddau Cynllunio a Hyrwyddo

Rhestr Wirio Cristingl ar gyfer Eglwysi
Defnyddiwch y rhestr syml hon i'ch helpu i gynllunio gwasanaeth Cristingl ac apêl codi arian llwyddiannus.

Cyn eich gwasanaeth

Cynllunio
□ Dewis dyddiad, amser a lleoliad
□ Archebu neu baratoi Cristinglau
□ Cael canhwyllau yn rhad ac am ddim gan Plant Dewi
□ Cael amlenni Rhodd Cymorth gan Plant Dewi
□ Cynnwys Plant Dewi ar bosteri ac mewn cylchlythyrau
□ Rhoi posteri i fyny a gwybodaeth am Plant Dewi
□ Lawrlwytho neu argraffu adnoddau Cristingl

Hyrwyddo'r digwyddiad
□ Cyhoeddi gwybodaeth yng nghyhoeddiadau'r eglwysi
□ Rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol
□ Gwahodd teuluoedd lleol a grwpiau cymunedol
□ Annog plant i ddod â ffrindiau
□ Hyrwyddo unrhyw weithgaredd neu sesiwn grefft gysylltiedig

Paratoi i dderbyn rhoddion
□ Trefnu basgedi casglu
□ Arddangos posteri gyda chod QR ar gyfer rhoddion
□ Paratoi amlenni rhodd cymorth

Yn ystod y Gwasanaeth

Rhannu'r Stori

- ☐ Esbonio ystyr Cristingl
- ☐ Rhannu stori teulu Plant Dewi
- ☐ Dangos sut mae rhoddion yn cefnogi teuluoedd lleol

Annog Cyfranogiad

- ☐ Gwahodd plant i gymryd rhan
- ☐ Cynnwys gweddïau dros deuluoedd a phlant ifanc
- ☐ Rhoi taflenni gweithgareddau i deuluoedd
- ☐ Annog aelodau'r gynulleidfa i gefnogi Plant Dewi
- ☐ Diolch i bawb am fynychu a rhoi

Ar ôl y Gwasanaeth

- ☐ Cyfrif a chofnodi'r rhoddion
- ☐ Anfon y rhoddion at Plant Dewi
- ☐ Rhannu lluniau gyda Plant Dewi (ar ôl cael caniatâd)
- ☐ Postio neges ddiolch ar y cyfryngau cymdeithasol
- ☐ Dathlu'r swm a godwyd

Postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol
(cofiwch dagio @PlantDewi):

Cyhoeddi Digwyddiad

🌟 Dewch i'n gwasanaeth Cristingl 🌟
Mae croeso i bawb ymuno â ni yn ein Gwasanaeth Cristingl ar [DYDDIAD] am [AMSER].
Dewch i ddathlu goleuni Crist gyda gwasanaeth teuluol a chyfeillgar sy'n llawn gobaith, llawenydd a chymuned.
Eleni byddwn yn cefnogi Plant Dewi, gan helpu teuluoedd lleol sydd â babanod a phlant ifanc ar draws esgobaeth Tyddewi.
🍊 Cristinglau i blant
🕯️ Gwasanaeth addas i bob oed
💛 Cefnogi teuluoedd lleol
Byddem wrth ein bodd yn eich gweld chi yno!

Wythnos i fynd

🕯️ Dim ond wythnos i fynd! 🕯️
Rydyn ni'n edrych ymlaen at groesawu pawb i'n Gwasanaeth Cristingl ar [DYDDIAD].
Mae Cristingl yn gyfle gwych i ddod at ein gilydd, i ddathlu gobaith a chefnogi teuluoedd lleol trwy waith Plant Dewi.
Mae pob Cristingl yn adrodd stori: 🍊 Y byd ❤️ Cariad Duw 🍬 Rhoddion Duw 🕯️ Goleuni Crist
Gobeithio y gallwch chi ymuno â ni.

Gwahoddiad sy'n Canolbwyntio ar Deuluoedd

👨‍👩‍👧‍👦 Ydych chi'n chwilio am ddigwyddiad Nadolig sy'n addas i deuluoedd?

Beth am ddod i'n Gwasanaeth Cristingl ar [DYDDIAD] am [AMSER].

Bydd cyfle i'r plant ddysgu am ystyr Cristingl, cymryd rhan mewn gweithgareddau a dathlu goleuni a gobaith y Nadolig.

Eleni rydyn ni hefyd yn codi arian ar gyfer Plant Dewi, gan gefnogi teuluoedd lleol a phlant ifanc ledled y Gorllewin. Mae croeso i bawb.

Esbonio'r Codi Arian

💛 Yn ein Cristingl eleni, rydyn ni'n cefnogi Plant Dewi 💛

Mae Plant Dewi yn gweithio gyda theuluoedd sydd â babanod a phlant ifanc, ac yn darparu cefnogaeth ymarferol, cyfeillgarwch a gobaith pan fo ei angen fwyaf.

Yn ystod ein Gwasanaeth Cristingl ar [DYDDIAD], bydd rhoddion yn helpu i gefnogi teuluoedd ledled ein cymunedau.

Bydd pob rhodd, beth bynnag ei maint, yn helpu i wneud gwahaniaeth.

Diolch am ein helpu i oleuo gobaith i deuluoedd lleol.

Diwrnod y Gwasanaeth

🌟 Daeth y dydd! 🌟

Ymunwch â ni heddiw am [AMSER] ar gyfer ein Gwasanaeth Cristingl.

Mae croeso i bawb wrth i ni ddod at ein gilydd i ddathlu'r Nadolig, rhannu goleuni Crist a chefnogi gwaith Plant Dewi.

📍 [ENW'R EGLWYS] 🕑 [AMSER]

Edrychwn ymlaen at eich croesawu.

Yn ystod y Gwasanaeth (Postiad Llun)

🕯️ ✨Mae ein heglwys yn disgleirio'n llachar heddiw!✨ 🕯️

Diolch i bawb sydd wedi ymuno â ni ar gyfer ein Gwasanaeth Cristingl ac wedi helpu i gefnogi Plant Dewi. Gyda'n gilydd rydyn ni'n helpu i ddod â gobaith, cymorth ymarferol a chyfeillgarwch i deuluoedd sydd â babanod a phlant ifanc ledled y Gorllewin.

Postio neges o Ddiolch

💛 Diolch! 💛

Diolch o galon i bawb a ddaeth i'n Gwasanaeth Cristingl a chefnogi Plant Dewi.

Gyda'n gilydd, rydyn ni wedi codi £[SWM] i helpu teuluoedd sydd â babanod a phlant ifanc ar draws ein cymunedau.

Diolch am ein helpu i rannu goleuni Crist a dod â gobaith i deuluoedd lleol.

Croeso i chi ddefnyddio'r poster isod ar gyfer eich gwasanaeth – llenwch y manylion.

GWAHODDIAD INVITATION

Gwahoddir chi i wasanaeth Cristingl
You are invited to a Christingle service

Yn / At

.....



Ar / On

.....

Amser / Time

.....

Croeso cynnes i bawb
A warm welcome to all

Elw tuag at:
All proceeds to:

PLANT DEWI
Lle Mae Teuluoedd yn Bwysig
Where Families Matter

Rhif Elusen Cofrestredig/Registered Charity No: 244178

Ffyrdd o godi arian

Yn lle talu am docyn, gofynnwch i'r gynulleidfa gyfrannu yn ôl eu gallu, i gefnogi teuluoedd sydd â babanod a phlant ifanc ledled ein cymunedau.

Casgliad Canhwyllau
Gwahoddwch y plant a'r teuluoedd i roi cyfraniadau yn y blwch casglu wrth iddyn nhw dderbyn neu oleuo eu Cristingl.

Casgliad Arbennig
Gwnewch gasgliad arbennig yn ystod y gwasanaeth ac esboniwch sut y bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio.

Rhodd Cymorth
Cofiwch annog aelodau'r gynulleidfa i nodi Rhodd Cymorth ar gyfer rhoddion cymwys lle bo modd - mae amlenni Rhodd Cymorth ar gael gan Plant Dewi.

Ffyrdd o roi:

- Cod QR

- Tudalen rhoi ar-lein - www.localgiving.org/fundraising/PlantDewiChristingle

- Casgliad arian parod yn ystod y gwasanaeth

Rhannu eich Cristingl

Byddem wrth ein bodd yn rhannu newyddion am eich gwasanaeth Cristingl gyda'r Esgobaeth yn ehangach.

Anfonwch y canlynol at catrin@plantdewi.co.uk:

- Lluniau o'ch Cristinglau (gyda chaniatâd)
- Gwaith celf y plant
- Llwyddiant wrth godi arian
- Straeon o gymuned eich eglwys
-

Trwy rannu'r eiliadau hyn, rydych chi'n helpu i ysbrydoli eglwysi eraill i gymryd rhan a chefnogi teuluoedd ledled yr esgobaeth.

Diolch am ein helpu i oleuo gobaith i deuluoedd. Bydd eich caredigrwydd a'ch haelioni yn gwneud gwahaniaeth go iawn i blant a rhieni ledled ein cymunedau. Gyda'n gilydd, rydyn ni'n dangos bod pob teulu yn bwysig ac na ddylai unrhyw un orfod wynebu heriau bywyd ar ei ben ei hun.